# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Gynradd Y Rofft

Dyddiad yr arolygiad: 05/05/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Gynradd Y Rofft yn darparu amgylchedd croesawgar a chefnogol lle mae disgyblion yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel. Mae perthnasoedd cryf rhwng staff a disgyblion yn creu awyrgylch tawel a pharchus, sy'n hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac yn helpu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ymgysylltu'n dda â'u dysgu. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac yn cynllunio gwersi diddorol sy'n darparu lefel ysgogol o her, gan annog disgyblion i weithio'n annibynnol, dangos gwydnwch a chydweithio'n effeithiol â disgyblion eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o aelwydydd incwm isel, yn gwneud cynnydd da ar draws llawer o feysydd y cwricwlwm. Maent yn datblygu medrau cyfathrebu cryf ac yn cymryd rhan yn hyderus mewn trafodaethau. Mae darllen yn datblygu'n dda, gyda'r rhan fwyaf o ddisgyblion iau yn sicrhau medrau ffoneg, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn darllen yn rhugl ac yn trafod testunau'n ystyriol. Mae medrau ysgrifennu hefyd yn datblygu'n gadarn, ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn cynhyrchu gwaith estynedig a chywir ar draws ystod o bynciau.

Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm eang a difyr sy'n cymell disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn bwrpasol ar draws ystod o weithgareddau ystyrlon. Maent yn datblygu dealltwriaeth fathemategol gadarn ac yn defnyddio offer digidol yn effeithiol i ymchwilio, cyflwyno a chyfleu eu syniadau. Mae disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth gadarnhaol o'r Gymraeg a'i diwylliant, yn ogystal ag amrywiaeth fyd-eang ehangach.

Mae staff yn cefnogi lles disgyblion yn effeithiol. Mae disgyblion yn deall sut i aros yn ddiogel, gan gynnwys ar-lein, ac yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ffyrdd iach o fyw a pherthnasoedd. Mae profiadau dysgu yn yr awyr agored a chreadigol, sydd wedi'u cynllunio'n dda, yn cyfoethogi datblygiad disgyblion ymhellach. Mae'r ysgol hefyd yn darparu cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rhai yn y ddarpariaeth adnoddau, gan eu galluogi i wneud cynnydd cadarn.

Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau clir, yn canolbwyntio'n dda ar wella addysgu a dysgu, ac yn gweithio'n gynhyrchiol gyda phartneriaid allanol. Fodd bynnag, maent yn cydnabod bod angen gwella cyfathrebu â rhieni a llywodraethwyr fel bod gwybodaeth yn gyson glir ac amserol. Er bod llywodraethwyr yn dangos ymrwymiad a chymorth, nid ydynt yn herio arweinwyr yn ddigon cadarn ynghylch agweddau pwysig ar waith yr ysgol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Cryfhau rôl y corff llywodraethol i'w alluogi i herio a chefnogi arweinwyr yn fwy effeithiol

A2 Gwella cyfathrebu â rhieni i sicrhau eu bod yn cael eu hysbysu'n dda am gynnydd disgyblion a gwaith yr ysgol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 08/07/2026